

2016 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Pwllgoleulas, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016

Gwnaed 27 Ionawr 2016

Yn dod i rym 29 Ionawr 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ionawr 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Pwllgoleulas, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r lluoedd arfog ac sy'n cael ei yrru am y tro gan berson, yn ddarostyngedig i orchmynion gan aelod o'r lluoedd arfog neu'r Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth

- ymarfer ymateb, i argyfwng
diogelwch gwladol; neu
(ii) at y diben o hyfforddi person i yrru
cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae cynnal eu cymwyseddau’n gyfrifoldeb i Gyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig neu sydd, am y tro, yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn hwnnw o’r gefnffordd sy’n ymestyn tua’r gogledd-orllewin o bwynt 162 o fetrau i’r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd gyda’r ffordd sy’n arwain at Ysbyty Alltwen ger Tremadog, Gwynedd i bwynt 555 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Dirymu

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tremadog, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2006(3) a Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tremadog, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2006 (Amrywiad) 2007(4) drwy hyn wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

27 Ionawr 2016

Richard Morgan

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) 1984 p. 27; amnewidwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) (mae’r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i’r darpariaethau arbed a throsiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20)).
- (3) O.S. 2006/1079 (Cy.111).
- (4) O.S. 2007/1685 (Cy.144).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(PWLLGOLEULAS, GWYNEDD) (TERFYN
CYFLYMDER 40 MYA) 2016**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 29 Ionawr 2016.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 ym Mhwllgoleulas, Gwynedd sy'n ymestyn tua'r gogledd-orllewin o bwynt 162 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd gyda'r ffordd sy'n arwain at Ysbyty Alltwen ger Tremadog, i bwynt 555 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 27 Ionawr 2016, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y Gorchymynion a ddiddymir, plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol Swyddfa Bost Tremadog, 10 Stryd yr Eglwys, Tremadog, Gwynedd LL49 9RA, neu gellir cael copïau'n rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r rhif cyfeirnod qA1225320/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2016).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(PWLLGOLEULAS, GWYNEDD) (TERFYN
CYFLYMDER 40 MYA) 2016**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn er budd diogelwch ar y ffordd. Mae terfyn cyflymder o 40 mya eisoes mewn grym yn y lleoliad hwn ond, o ganlyniad i newidiadau i drefn ffyrdd yn sgil adeiladu Ffordd Osgoi Porthmadog ac adleoli arwyddion, bydd y Gorchymyn presennol yn cael ei ddirymu a'i ddisodli gan y Gorchymyn newydd hwn i sicrhau bod hyd a lled y cyfyngiad yn gywir a bod modd gorfodi'r terfyn cyflymder yn effeithiol.